# YMGYSYLLTU RHYNGWLADOL GWEINIDOGOL

# EBRILL 2024

## YMWELIADAU MEWNOL

| | |
|---|---|
| 12 Ebrill | **Ymweliad â Chymru gan Lysgennad Japan i'r DU**<br>Cyfarfu'r Prif Weinidog â'r Llysgennad yn Sain Ffagan i ddathlu 'Hanami' fel rhan o Brosiect Coed Sakura. Cynhaliwyd cyfarfod dwyochrog byr i drafod blwyddyn Cymru yn Japan 2025, EXPO y Byd a chysylltiadau rhwng Cymru a Japan. |
| 22 Ebrill | **Ymweliad gan Sefydliad Diwylliant Wcráin**<br>Cyfarfu'r Cwnsler Cyffredinol â dirprwyaeth o Sefydliad Diwylliant Wcráin a oedd yn ymweld â Chymru gyda chefnogaeth y Cyngor Prydeinig. Prif eitem y drafodaeth oedd y Fforwm Symudedd Diwylliannol i'w gynnal yng ngogledd Cymru ar 25-26 Ebrill. |
| 30 Ebrill | **Ymweliad â Chymru gan y Brenin Letsie III o Lesotho**<br>Cyfarfu'r Prif Weinidog â'r Brenin Letsie III o Lesotho yn ystod ei ymweliad â Chymru. Ymwelodd y ddirprwyaeth â Chymru i archwilio profiad Cymru o ddatblygu ynni adnewyddadwy, yn ogystal ag ailddatgan cysylltiadau presennol sy'n ymestyn dros 40 mlynedd. |

## YMWELIADAU ALLANOL

Dim